

Cofion

Anfonwn ein cofion heddiw at Glyn Davies (Saron) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Heddwyn Davies (Llansannan) dreuliodd rai dyddiau yn Ysbyty Abergele yn ystod yr wythnos a fu – y ddau wedi cael llawdriniaeth. Dymunwn yn dda hefyd i Amy Evans (Llanfair) fydd yn cael llawdriniaeth yn ystod y dyddiau nesaf. Mae eraill o'r Fro yn derbyn gofal ysbyty, rhai fel cleifion allanol, eraill yn treulio ychydig ddyddiau yn yr ysbyty yn awr ac yn y man, ac eraill yn aros am driniaeth. Cyflwynwn bob un ohonynt i ofal Duw gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid. Hyderwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal ac yn ddigon iddynt yn eu hangen.

Apêl i godi £15,000 i gyhoeddi'r Beibl cyfan ar www.beibl.net

Mae miloedd o bobl wedi cael budd o ddarllen y Beibl mewn Cymraeg clir a chyfoes ar www.beibl.net. Mae adnoddau rhagorol i'w cael yno i helpu i ddod â'r neges yn fyw i blant a phobl ifanc, a bu'n gymorth i unigolion, eglwysi ac ysgolion. Mae holl lyfrau'r Testament Newydd i'w gweld eisoes ar www.beibl.net ynghyd â nifer o lyfrau'r Hen Destament. Y weledigaeth yw cyhoeddi'r Beibl cyfan ar y wefan erbyn 1 Mawrth 2013. Gallwn gefnogi'r apêl fel unigolion neu fel eglwysi trwy:

- gyfrannu ar y we: www.gobaith.org/cefnogi
- drefnu casgliad yn ein heglwys. Ffoniwch GiG (029 2056 9578) i gael taflenni.
- drefnu digwyddiad codi arian
- anfon rhoddion yn y post (sieciau yn daladwy i Gobaith i Gymru) at GiG, 57Parc yr Hafod, Yr Wyddgrug CH7 1QW.

I ddod

- **Cwrdd Chwarter** yng Nghapel Pendref, Rhuthun nos Iau, Tachwedd 22ain am 7.00. Yn dilyn y materion ffurfiol, ceir anerchiad gan Lywydd y Cwrdd Chwarter, Mr Alun Edwards, ac yna fe weinyddir y cymun.
- **Christian Viewpoint** i'r merched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Tachwedd 26ain am 7.30. "Jesus, the reason for the season" gyda Jayne Hirst fydd thema y cyfarfod. Pris: £3 yn cynnwys bwffe.
- **Hyfforddiant Efengylu** gyda Roger Carswell yng Ngholeg y Bala, Tachwedd 30ain – Rhagfyr 1af. Croeso i ieuencid 15+ ac oedolion o bob oed. I archebu lle, cysylltwch â'r Coleg: 01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk
- **Codi'r Faner** yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug dydd Sadwrn, Rhagfyr 8fed o 10 y.b. – 4 y.p. Diwrnod yw hwn ar gyfer aelodau eglwysi i'n galluogi i fod ynglŷn â gwaith Duw heddiw. Bydd pedair sesiwn: Sylfeini'r ffydd; Cwestiynau Bywyd; Arwain Addoliad; ac Adeiladu'r eglwys trwy'r Rhaglen Ddatblygu. Arweinir y sesiynau gan Euros Wyn Jones a Geraint Tudur. Croeso i bawb.
- **Oedfa Blygain i'r Fro** nos Sul, Rhagfyr 16eg yn Llansannan am 6.00.
- **Oedfa Bore Nadolig i'r Fro** yng Nghapel y Groes am 9.30.
- **Oedfa i'r Fro** yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn bore Sul, Rhagfyr 30ain am 10.00.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 11^{eg} Tachwedd 2012

"Os carwch y rhai sy'n eich caru
chwi, pa wobr sydd i chwi?"
Math.5:46

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da iawn i chi ar Sul y Cofio. Mae'n rhaid i mi gyfadde fy mod yn cael fy nhynnu pob sut ar ddiwrnod fel heddiw. Mae gen i gof am fy nhaid yn sôn am y rhyfel – yr ail ryfel byd – a'r ffrindiau a gollodd er na fuodd o ei hun ar faes y gad. Roedd y rhyfel yn fyw iawn iddo a'i genhedlaeth, a hyd yn oed i genhedlaeth fy rhieni gan y byddent wedi gorfod gwneud penderfyniadau mawr ynglŷn â'r orfodaeth filwrol a meddwl o ddifri am gost rhyddid a heddwch a rhyfel.

Yr hyn sy'n cael ei gredu'n gyffredin yw fod aberth y miloedd a fu'n ymladd anghyfiawnder a thrais wedi prynu heddwch i'n cenhedlaeth ni, a'n bod ni yn awr yn gallu mwynhau rhyddid – hyd yn oed y rhyddid i fod yn heddychwyr – o ganlyniad i'r rhyfela a fu. Mae gen i rhyw deimladau o ddyled felly, yn corddi'n ddwfn.

Ond eto, mae greddf ynof hefyd sy'n dweud fod lladd cyd-ddyn yn anghywir. Fedra i ddim dychmygu sut beth fyddai wynebu person arall, a'i gyfrif yn gymaint o elyn nes y byddwn yn fodlon ei ladd. A fyddwn i, mewn amgylchiadau arbennig, yn medru rhoi heibio fy ngreddf naturiol i arbed bywyd? A fyddwn i, dan deimladau o ofn neu o fod eisiau amddiffyn rhywun arall, yn fodlon lladd y rhai a fyddai'n bygwth? A fyddwn i yn gallu cyfiawnhau trais dan rai amgylchiadau? Mae gen i rhyw deimladau o ansicrwydd ynglŷn â sut y byddwn i yn ymateb yn corddi'n ddwfn hefyd.

Ond rwy'n gofyn yn amlach na pheidio, sut y dylswn i ymateb fel disgybl i Iesu? Beth yw arweiniad yr Ysbryd a'r Gair i mi? Mae un egwyddor glir a phendant iawn yn y Gair sef fod cariad Duw yn gallu achub a newid y gelyn pennaf (Rhuf. 5: 10). O'i gariad y mae Duw wedi rhoi ei Fab i'r byd (Ioan 3:16). Os yw Duw wedi fy ngharu i gymaint â hyn, mae'n ofynnol i mi rwan, fel Cristion, barchu a charu pob person arall. Gorchymyn Crist i ni ydi: "Carwch eich gelynon, gweddiwch dros y rhai sydd yn eich erlid" (Mathew 5: 44). Dyma ei esiampl Ef ar y groes pan weddiodd "O Dad, maddau iddynt ..." (Luc 23: 34).

Heddiw, felly ar ddydd y Cofio mi fydda i yn ceisio cofio am bawb, o bob gwlad, sydd mewn profedigaeth gan weddio dros y ddwy ochr ymhob argyfwng a rhyfel. Gweddiwn fel hyn gan gredu fod Duw yn gweithredu trugaredd a barn, yn ei Arglwyddiaeth, i'r rhai gostyngedig; mewn dial a chyfiawnder o blaid y diniwed, ac yn ei ras a'i gariad anorchfygol i gymodi'r gelynon ffyrnigaf.

Gweddi'af hefyd y bydd yr Ysbryd yn fy mhlygu i wrth groes Calvaria er mwyn i mi gael y nerth i fod yn debycach i'r Arglwydd yn fy holl ymwneud ag eraill.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Haf Tan y Graig, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mawrth • **Adnabod Dawn** yn Ffestri Capel y Groes am 7.30.
- Mercher • Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod.
- Cyfarfod o **Gymdeithas Chwiorydd Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Pendref, Rhuthun **am 2.00** pryd y bydd Mrs Beti Wyn Evans a Mrs Sioned Edwards yn rhoi blas o Frethyn Cartref. Ceir yno hefyd standin 'Dewch a Phrynwch'. Croeso i bawb.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yn Nhrefnant. Pwyllgor Gwaith am 4.30, Gwaith yr Henaduriaeth a Throsglwyddo'r Llywyddiaeth i'r Parch. Aneurin Owen am 6.00.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth Cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Robert. O. Roberts yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Byddwn yn ymgynnull wrth y gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 10.50.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Robert O. Roberts yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Cyfarfod Gweddi yn Henllan a Groes am 10.00 a chynhelir yr Ysgol Sul yn y ddwy eglwys am 2.00 gyda'r plant yn cyfarfod yn Henllan.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd i'r daith yn Groes am 2.00 pryd y bydd Iwan a Menna Jones yn cyflwyno Gruffydd Elystan i gael ei fedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau